Cabinet Office

# Diwygio Dulliau Canfasio

# Cyfarwyddiadau Cydweddu Data Cenedlaethol

# Tabl Cynnwys


**Pwrpas y Cyfarwyddiadau Cydweddu Data Cenedlaethol** **3**

**Canllawiau'r Comisiwn Etholiadol** **3**

**Deddfwriaeth** **4**

**Beth yw cydweddu data cenedlaethol?** **4**

Amlinelliad byr 4

Pa ddata sy'n rhaid i mi ei anfon ar gyfer cydweddu data cenedlaethol? 5

**Trefnu i lwytho'r data cydweddu cenedlaethol i fyny** **5**

Pryd y gallaf lwytho'r data cydweddu cenedlaethol i fyny? 5

Yr Offeryn Amserlennu a'i bwrpas 5

Cael gafael ar yr Offeryn Amserlennu 6

Paratoi cyn archebu'ch dyddiad llwytho i fyny 6

Archebu eich dyddiad llwytho i fyny yn yr Offeryn Amserlennu 6

Sut ydw i'n gwybod a yw fy archeb wedi bod yn llwyddiannus? 7

Cadarnhau archebu 8

A allaf newid fy nyddiad llwytho i fyny ar ôl imi archebu? 8

**Cyn eich dyddiad llwytho i fyny** **9**

A oes angen i mi wirio fy nghysylltiad â'r CDMS cyn ei lwytho i fyny? 9

Sut mae llwytho fy nata i fyny ar gyfer y drefn cydweddu data cenedlaethol? 9

**Llwytho eich canlyniadau i lawr** **10**

Sut a phryd ydw i'n llwytho fy nghanlyniadau i lawr? 10

**Rhestr Wirio Cydweddu Data Cenedlaethol** **11**

**Cwestiynau Cyffredin** **11**

**Atodiad A - Cyrchu'r Offeryn Amserlennu - Rhestr Wirio Cysylltedd** **16**

**Atodiad B - Rhestr Wirio Cysylltedd Llwytho Data Cydweddu Cenedlaethol i Fyny/i Lawr** **17**

## 1. Pwrpas y Cyfarwyddiadau Cydweddu Data Cenedlaethol

1.1. Bob blwyddyn, cyn cynnal y canfasiad blynyddol, rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs) ddatgelu data i Weinidog Swyddfa'r Cabinet fel rhan o'r cam cydweddu data cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys gwirio gwybodaeth am etholwyr presennol ar y gofrestr yn erbyn data a gedwir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Pwrpas yr ymarfer yw helpu i nodi eiddo lle gallai'r etholwyr fod wedi newid. Yna dylid defnyddio'r wybodaeth hon i bennu'r llwybr a ddefnyddir i ganfasio pob eiddo.

1.2. Pwrpas y ddogfen hon yw ategu canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gydweddu data ar gyfer y canfasiad blynyddol. Mae'r ddogfen hon yn darparu cyfarwyddiadau ar y broses o gydweddu data cenedlaethol sy'n cael ei redeg gan Swyddfa'r Cabinet.

1.3. Cyfeirir y cyfarwyddiadau hyn tuag at yr ERO a'r dyletswyddau y maent yn eu cyflawni. Gan y gall y dyletswyddau hyn, yn ymarferol, gael eu cyflawni gan ddirprwyon a/neu staff penodedig, rydym yn defnyddio'r term 'chi' trwy gydol y canllaw hwn i olygu'r ERO a phwy bynnag sy'n cyflawni swyddogaethau'r ERO ar eu rhan.

1.4. Dyma fersiwn gyntaf y ddogfen hon. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Mai 2020.

## 2. Canllawiau'r Comisiwn Etholiadol

2.1. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cyhoeddi eu cyfres lawn o ganllawiau ar y dull canfasio diwygiedig, gan gynnwys canllawiau ar gydweddu data. Mae'r canllaw yn darparu gwybodaeth allweddol ar gydweddu data cenedlaethol, gan gynnwys sut i gynllunio ar gyfer y cam hwn o'r broses ganfasio. I gyrchu'r canllaw hwn, defnyddiwch y ddolen isod:

https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/gweinyddwr-etholiadol

2.2. I ddod o hyd i wybodaeth am yr ystyriaethau pwysig ar gyfer cynllunio eich cam cydweddu data, ewch i 'Cyflwyno'r canfasiad blynyddol - Cymru/Lloegr/Yr Alban [dewiswch eich gwlad fel y bo'n briodol]' / 'Datblygu cynlluniau ar gyfer y canfasiad blynyddol' / 'Cynllunio ar gyfer cydweddu data '.

2.3. I ddod o hyd i wybodaeth am y cam cydweddu data yn gyffredinol, ewch i 'Cyflwyno'r canfasiad blynyddol – Cymru/Lloegr/Yr Alban [dewiswch eich gwlad fel y bo'n briodol]' / 'Cydweddu data ar gyfer y canfasiad blynyddol'.

Mae'r rhan hon o'r canllaw yn cynnwys gwybodaeth am beth yw cydweddu data, pa ddata y mae angen i chi ei gynnwys a'i eithrio, sut a phryd i anfon eich data a sut i brosesu'r canlyniadau a dyrannu eiddo i lwybrau canfasiad.

## 3. Deddfwriaeth

3.1. Roedd y rheoliadau i ddiwygio'r broses ganfasio flynyddol yn Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001[1] ("Rheoliadau 2001") a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Yr Alban) 2001[2] ("Rheoliadau'r Alban 2001"), a'r ddarpariaeth ar gyfer cydweddu data'r canfasiad, wedi dod i rym ar 31 Rhagfyr 2019 mewn perthynas â'r gofrestr seneddol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban a'r gofrestr llywodraeth leol mewn perthynas â Lloegr[3]. Daeth i rym ar 22 Ionawr 2020 mewn perthynas â'r gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru ac ar 27 Ebrill 2020 mewn perthynas â'r gofrestr llywodraeth leol yn yr Alban.

3.2. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi y caiff Gweinidog Swyddfa'r Cabinet hysbysu'r swyddog cofrestru yn ysgrifenedig ynghylch y gofynion o ran cydweddu data cenedlaethol. Yn benodol, mae Rheoliad 32ZBB(2) o Reoliadau 2001 a Rheoliadau'r Alban 2001 (fel y'i diwygiwyd) yn darparu bod y data i'w ddatgelu yn y fformat a thrwy system seilwaith o'r fath a hysbyswyd yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet i'r swyddog cofrestru. Mae'r canllaw hwn yn nodi'r gofynion gweinidogol hyn (mewn blwch cyn deunydd esboniadol neu ddisgrifiadol ar y broses berthnasol). Rhaid datgelu'r data cydweddu yn y fath fformat a thrwy'r seilwaith a nodir yn y gofynion gweinidogol[4].

## 4. Beth yw cydweddu data cenedlaethol?

### 4.1. Amlinelliad byr

4.1.1. Bob blwyddyn, cyn cynnal y canfasiad blynyddol, rhaid i chi ddatgelu data i Weinidog Swyddfa'r Cabinet fel rhan o'r cam cydweddu data cenedlaethol. Yna bydd Gwasanaeth Cydweddu Data Canfasio Swyddfa'r Cabinet (CDMS) yn hwyluso cymhariaeth o'r wybodaeth bresennol am etholwyr ar eich cofrestr yn erbyn data a gedwir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

4.1.2. Pwrpas yr ymarfer yw eich helpu i nodi eiddo lle gallai cyfansoddiad y preswylwyr fod wedi newid. Yna dylid defnyddio'r wybodaeth hon i bennu'r llwybr y byddwch chi'n ei ddefnyddio i ganfasio pob eiddo.

[1] OS 2001/341
[2] OS 2001/497
[3] Gweler Rheoliadau Diwygio Cynrychiolaeth y Bobl (Canfasiad Blynyddol) 2019 (OS 2019/1451)
[4] Gweler Rheoliad 32ZBB(2) o Reoliadau 2001 a Rheoliadau'r Alban 2001.

**GOFYNION GWEINIDOGOL**

Cyhoeddir y cyfarwyddiadau hyn gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet o dan reoliad 32ZBB(2) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Yr Alban) 2001. Rhaid i chi ddatgelu data ar gyfer cydweddu data yn y fformat a nodir ym mharagraff 4.2.1.

4.2. **Pa ddata sy'n rhaid i mi ei anfon ar gyfer cydweddu data cenedlaethol?**

4.2.1. Rhaid cydweddu pob etholwr â'i gyfeiriad gan gynnwys cod post, enw cyntaf a chyfenw o leiaf. Rhaid i etholwyr hefyd gael eu cydweddu â Rhif Cyfeirnod Eiddo Unigryw eu cyfeiriad (UPRN), eu henw canol, eu henw blaenorol, a dyddiad geni os ydych yn dal y wybodaeth hon

| Angen ar gyfer Cydweddu Data | Cydweddu lle mae ar gael |
|---|---|
| ➔ Enw Cyntaf<br>➔ Cyfenw<br>➔ Llinell 1 Cyfeiriad<br>➔ Cod Post | ➔ Enw Blaenorol<br>➔ Enw Canol<br>➔ Dyddiad Geni<br>➔ UPRN |

## 5. Trefnu i lwytho'r data cydweddu cenedlaethol i fyny

5.1. **Pryd y gallaf lwytho'r data cydweddu cenedlaethol i fyny?**

5.1.1. Bydd y broses cydweddu data cenedlaethol ar agor o ddechrau mis Mehefin tan ddiwedd mis Awst. Sylwch fod cydweddu data cenedlaethol ar gael yn ystod yr wythnos yn unig, ac eithrio Gwyliau Banc yng Nghymru a Lloegr. Bydd y broses cydweddu data cenedlaethol ar agor yn ystod Gwyliau Banc yn yr Alban. Efallai y bydd opsiwn i archebu eich proses cydweddu data y tu hwnt i'r dyddiad hwn os oes angen, ond anfonwch e-bost at canvass-reform@cabinetoffice.gov.uk i wneud cais am hyn. Gall y dyddiadau hyn newid o dan amgylchiadau eithriadol a byddai Swyddfa'r Cabinet mewn cysylltiad i gadarnhau hynny.

5.2. **Yr Offeryn Amserlennu a'i bwrpas**

5.2.1. Bydd pob Cyd-Fwrdd Awdurdod Lleol/Prisio (CFALl/P) yn dewis y dyddiad ar gyfer llwytho eu data cydweddu cenedlaethol i fyny. Yna mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r Offeryn Amserlennu i drefnu i lwytho'r data i fyny.

5.2.2. Prif bwrpas yr Offeryn Amserlennu yw eich galluogi i archebu dyddiad i lwytho'r data cydweddu cenedlaethol i fyny. Mae'n hanfodol eich bod chi'n archebu'ch dyddiad llwytho i fyny trwy'r Offeryn Amserlennu.

### 5.3. Cael gafael ar yr Offeryn Amserlennu

5.3.1. Dim ond trwy ddolen ddiogel y gellir cyrraedd yr Offeryn Amserlennu. Bydd Swyddfa'r Cabinet yn anfon e-bost at y tri chyfeiriad e-bost gwaith unigol sydd gennym ar gyfer eich tîm, ynghyd â chyfeiriad e-bost cyhoeddus eich tîm. Anfonir yr e-bost o'r cyfeiriad: no-reply@registertovote.service.gov.uk.

5.3.2. Mae'r ddolen a anfonir atoch yn unigol i bob CFALl/P. Ar ôl i chi dderbyn yr e-bost hwnnw, cliciwch ar y ddolen unigryw er mwyn cyrchu'r Offeryn Amserlennu. Os na allwch agor y ddolen hon, cyfeiriwch at adran 9.2 isod.

### 5.4. Paratoi cyn archebu'ch dyddiad llwytho i fyny

5.4.1. Byddem yn argymell darllen yr holl gyfarwyddiadau isod fel bod gennych yr wybodaeth gywir wrth law cyn trefnu'ch dyddiad cydweddu data cenedlaethol.

5.4.2. Mae'n bwysig eich bod yn sicrhau bod eich dyddiad llwytho i fyny yn gywir ac na fydd yn newid cyn symud ymlaen i archebu. Nid oes unrhyw opsiwn ar yr Offeryn Amserlennu i 'gadw dyddiad' am ychydig ddyddiau er mwyn gwneud y penderfyniad hwn, neu i newid y dyddiad hwn, felly bydd angen i chi fod yn sicr eich bod yn hapus â'ch dyddiad cyn ei archebu.

5.4.3. Gallwch agor y ddolen fwy nag unwaith, felly os byddwch chi'n agor y ddolen i weld sut beth yw'r system ac nad ydych chi'n archebu'ch dyddiad, byddwch chi'n gallu ailagor y ddolen rywbryd eto.

5.4.4. Cyn i chi fynd i'r Offeryn Amserlennu, mae'n werth ystyried hefyd pa ddyddiadau llwytho i fyny eraill fyddai'n ffitio eich cynllun canfasio rhag ofn nad yw'r dyddiad yr ydych chi am ei archebu ar gael.

5.4.5. Oni bai eich bod yn derbyn mwy o wybodaeth gyfoes gan Swyddfa'r Cabinet, ni fyddwch yn gallu archebu dyddiad ar ôl 31 Awst trwy'r Offeryn Amserlennu.

### 5.5. Archebu eich dyddiad llwytho i fyny yn yr Offeryn Amserlennu

5.5.1. Pan fyddwch wedi llwytho'r Offeryn Amserlennu, bydd angen i chi fewnbynnu'ch:

- Dyddiad Llwytho Cydweddu Data Cenedlaethol
- Enw Cyflenwr System Rheoli Etholiadol (EMS)
- Cyfanswm yr Etholwyr Cofrestredig

Ar gyfer cyfanswm yr etholwyr cofrestredig, gwnewch yn siŵr bod y rhif hwn mor gywir â phosibl. Peidiwch â chynnwys unrhyw atalnodi fel comas a bylchau wrth fewnbynnu cyfanswm eich etholwyr cofrestredig.

**Ffigur 1**




5.5.2. Gweler Ffigur 1 uchod am enghraifft o sut y bydd yr Offeryn Amserlennu yn edrych. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n fformatio'ch dyddiad yn unol â'r fformat yn yr enghraifft hon.

5.5.3. Ar ôl i chi ddewis eich dyddiad llwytho i fyny a llenwi'r manylion eraill sy'n ofynnol, bydd angen i bob defnyddiwr glicio ar 'Book Slot'.

5.6. **Sut ydw i'n gwybod a yw fy archeb wedi bod yn llwyddiannus?**

5.6.1. Os ydych wedi llwyddo i archebu eich dyddiad llwytho i fyny dewisol (h.y. mae'r dyddiad rydych chi wedi'i ddewis ar gyfer llwytho i fyny ar gael), yna fe welwch sgrin newydd sy'n datgan 'Booking Successful' ac sy'n cadarnhau eich dyddiad llwytho i fyny a drefnwyd. Gweler Ffigur 2 isod am enghraifft.

**Ffigur 2**

5.6.2. Ni fydd yr Offeryn Amserlennu yn caniatáu ichi archebu dyddiad llwytho i fyny os nad oes digon o le i'ch CFALI/P gael ei gynnwys ar y dyddiad a ddewiswyd gennych. Os yw'r dyddiad rydych wedi'i ddewis yn hollol lawn, yna ailadroddwch y broses nes eich bod wedi dewis dyddiad sydd â digon o le i'ch etholwyr.

5.6.3. Os ydych chi'n gallu mynd i'r Offeryn Amserlennu ond yn methu ag archebu dyddiad llwytho i fyny oherwydd problem ar y system (ee methu â chyrraedd y sgrin gadarnhau uchod am fod y dudalen we'n chwalu), yna rhowch gynnig arall ar eich dolen a mynd trwy'r un camau. Os bydd y broblem hon yn parhau, cysylltwch â canvass-reform@cabinetoffice.gov.uk.

### 5.7. Cadarnhau archebu

5.7.1. Ar ôl i chi archebu, dylech dderbyn e-bost gan no-reply@registertovote.service.gov.uk sy'n cadarnhau manylion yr archeb. Bydd yr e-bost hwn yn cael ei anfon i'r un cyfeiriadau e-bost a dderbyniodd e-bost yr Offeryn Amserlennu gyda'r ddolen unigryw. Gweler Ffigur 3 isod am enghraifft.

**Ffigur 3**



GOV.UK

**National Data Matching Upload Date Booking Confirmation**

Your booking for the annual canvass national data matching has been successful.

Booking details:

| | |
|---|---|
| Email: | [Your team's email addresses here] |
| | [Your team's email addresses here] |
| Scheduled Date: | [Your scheduled date here] |
| GSS IDs: | [Your GSS ID here] |
| Record Count: | [Your total number of registered electors here] |
| EMS Supplier: | [Your EMS supplier here] |

*If any of the above information is incorrect, please contact the Cabinet Office: canvass-reform@cabinetoffice.gov.uk*

5.7.2. Nodwch, ar ôl i chi lwyddo i archebu'ch dyddiad llwytho i fyny, bydd y ddolen a anfonwyd i'ch tîm yn dod i ben ac ni fyddwch yn gallu ei defnyddio eto.

### 5.8. A allaf newid fy nyddiad llwytho i fyny ar ôl imi archebu?

5.8.1. Os ydych wedi cwblhau'r broses archebu yn llwyddiannus ac yna'n darganfod yn ddiweddarach y bu amgylchiadau annisgwyl sy'n gofyn ichi newid eich dyddiad llwytho i fyny, bydd angen i chi e-bostio canvass-reform@cabinetoffice.gov.uk gyda chais i newid eich dyddiad ac esboniad o'r newid mewn amgylchiadau.

5.8.2. Yna bydd Swyddfa'r Cabinet yn dileu eich archeb flaenorol â llaw ac yn anfon dolen unigryw newydd. Anfonir hwn i'r un cyfeiriadau e-bost a ddefnyddiwyd i anfon eich dolen flaenorol.

## 6. Cyn eich dyddiad llwytho i fyny

6.1. **A oes angen i mi wirio fy nghysylltiad â'r CDMS cyn ei lwytho i fyny?**

6.1.1. Dylai'r rhan fwyaf ohonoch allu llwytho i fyny heb broblemau cysylltedd cyn belled â'ch bod yn llwytho i fyny gan ddefnyddio'r un seilwaith rhwydwaith â phan wnaethoch chi gwblhau eich proses llwytho i fyny a llwytho i lawr ddiweddaraf. Mae seilwaith y rhwydwaith yn golygu sicrhau bod gosodiadau caniatâd a rheolau wal dân ar waith a bod y pyrth angenrheidiol ar agor er mwyn sefydlu cysylltiad diogel.

6.1.2. O ganlyniad, mae angen i chi ofyn i'ch tîm TG lleol a fu unrhyw newidiadau i'r system ers i chi lwytho i fyny a llwytho i lawr ddiwethaf. Dylech wneud hyn ddigon ymlaen llaw cyn eich dyddiad llwytho'r data cydweddu cenedlaethol i fyny. Gweler adran 9.7 isod os yw'ch tîm TG lleol yn cadarnhau y bu newid i'ch seilwaith rhwydwaith ac adran 9.8 os na allwch gael ateb gan eich tîm TG lleol.

6.1.3. Mae gwirio hyn gyda'ch adran TG yn arbennig o bwysig os ydych chi'n bwriadu ceisio llwytho'r data cydweddu cenedlaethol i fyny o leoliad gweithio newydd; er enghraifft, os ceisiwch hynny o'ch cartref yn lle'r swyddfa. Os ydych yn ansicr, byddem yn argymell atgynhyrchu sefyllfa a seilwaith rhwydwaith eich proses llwytho i fyny/i lawr llwyddiannus diwethaf i CDMS.

**GOFYNION GWEINIDOGOL**

Cyhoeddir y cyfarwyddiadau hyn gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet o dan reoliad 32ZBB(2) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Yr Alban) 2001. Rhaid i chi ddatgelu data ar gyfer cydweddu data trwy'r system seilwaith fel y nodir ym mharagraff 6.2.1.

6.2. **Sut mae llwytho fy nata i fyny ar gyfer y drefn cydweddu data cenedlaethol?**

6.2.1. Ar y diwrnod rydych chi wedi archebu i lwytho eich data i fyny, rhaid i chi lwytho'r etholwyr neu'r 'cofnodion' perthnasol i'r CDMS fel y gellir wedyn eu cydweddu yn erbyn data DWP.

6.2.2. I gael cyfarwyddiadau ymarferol ar sut i lwytho i fyny, darllenwch y cyfarwyddiadau manwl a ddarperir gan eich cyflenwr EMS.

6.2.3. Rhaid i chi ddechrau llwytho'ch data i fyny cyn 10.00am ar y dyddiad archebu. Bydd hyn yn helpu Swyddfa'r Cabinet i ddychwelyd eich canlyniadau mewn modd amserol trwy gynyddu'r tebygolrwydd y bydd eich proses wedi'i chwblhau mewn pryd i'r data gael ei anfon at DWP ar yr un diwrnod.

6.2.4. Os credwch na fyddwch yn gallu cychwyn llwytho i fyny cyn 10.00am, cysylltwch â canvass-reform@cabinetoffice.gov.uk ddigon ymlaen llaw.

6.2.5. Nodwch na allwn warantu pryd fydd y dyddiad llwytho i fyny nesaf os na fyddwch yn llwytho'ch data mewn pryd ar eich dyddiad archebu.

6.2.6. Byddem yn argymell eich bod yn sicrhau bod y diweddariadau EMS cywir wedi'u gosod ymhell cyn eich dyddiad llwytho i fyny.

## 7. Llwytho eich canlyniadau i lawr

### 7.1. Sut a phryd ydw i'n llwytho fy nghanlyniadau i lawr?

7.1.1. Pum diwrnod gwaith yw'r cytundeb lefel gwasanaeth rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Swyddfa'r Cabinet ar gyfer derbyn eich canlyniadau; yn debyg i'r broses ddilysu, byddwn yn ymdrechu i ddychwelyd canlyniadau'r cydweddu yn gynt.

7.1.2. Byddwch yn derbyn e-bost gan Swyddfa'r Cabinet yn cadarnhau pryd mae'ch canlyniadau ar gael. Cyfeiriwch at gyfarwyddiadau eich cyflenwyr EMS i gael esboniad o sut y bydd eich proses llwytho i lawr yn gweithio.

7.1.3. Mae'n bwysig bod eich canlyniadau'n cael eu llwytho i lawr cyn gynted â phosibl. Byddwch yn ymwybodol, oherwydd rheolau cadw data, y gellir dileu eich data os na fyddwch yn llwytho'ch canlyniadau i lawr.

## 8. Rhestr Wirio Cydweddu Data Cenedlaethol

| Cam Gweithredu | Cwblhawyd |
|---|---|
| Penderfynwch pa ddyddiad llwytho i fyny a ffefrir gennych ar gyfer cydweddu data cenedlaethol, gan gynnwys dewisiadau amgen, fel rhan o'ch drefn canfasio. | |
| Ar ôl i chi dderbyn dolen i'r Offeryn Amserlennu, agorwch yr Offeryn i archebu'ch dyddiad ar gyfer llwytho'r data cydweddu cenedlaethol i fyny. | |
| Siaradwch â'ch tîm TG lleol i sicrhau eich bod chi'n gallu cysylltu â CDMS Swyddfa'r Cabinet ymhell cyn eich dyddiad llwytho i fyny. | |
| Sicrhewch fod y diweddariadau EMS cywir wedi'u gosod ymhell cyn eich dyddiad llwytho i fyny. | |
| Dechreuwch lwytho eich data i fyny i'r CDMS cyn 10.00am ar y dyddiad rydych chi wedi'i archebu. | |
| Ar ôl i chi dderbyn hysbysiad bod eich canlyniadau'n barod, llwythwch eich data i lawr neu gwiriwch ei fod wedi'i lwytho i lawr yn awtomatig, yn dibynnu ar eich EMS. | |

## 9. Cwestiynau Cyffredin

9.1. **Pam ei bod yn hanfodol fy mod yn archebu fy nyddiad llwytho i fyny gan ddefnyddio'r Offeryn Amserlennu?**

9.1.1. Yn gyntaf, oherwydd bod cyfyngiad ar faint o etholwyr neu 'gofnodion' y gellir eu hanfon at DWP ar gyfer cydweddu data cenedlaethol ar unrhyw ddiwrnod penodol, mae'r Offeryn Amserlennu yn sicrhau na eir y tu hwnt i'r terfyn.

9.1.2. Yn ail, mae'r Offeryn Amserlennu hefyd yn sicrhau bod y ffeil rydych chi'n ei llwytho i fyny yn cael ei hanfon at DWP ar gyfer cydweddu data cenedlaethol ar y dyddiad cywir. Bydd ceisio llwytho i fyny ar ddyddiad arall yn golygu na allwn warantu pryd y bydd eich data yn cael ei anfon at DWP ar gyfer cydweddu data cenedlaethol. Mae'r Offeryn Amserlennu yn diweddaru'r CDMS yn awtomatig fel bod y CDMS yn gwybod pa ddata y gall ei ddisgwyl bob dydd. O ganlyniad, mae'n llai tebygol o anfon eich data i'r Adran Gwaith a Phensiynau ar ddyddiad nad ydych wedi'i archebu oherwydd ni fydd yn ymwybodol bod y data yno.

9.2. **Beth os nad yw fy nghysylltiad â**'r **Offeryn Amserlennu yn gweithio?**

9.2.1. Mae'r ddolen yn gofyn am gysylltiad rhwydwaith gwasanaethau cyhoeddus (PSN) i agor yr Offeryn Amserlennu. Os ceisiwch gyrchu'r Offeryn Amserlennu gan ddefnyddio cysylltiad PSN ansicr, yna ni fydd y dudalen we yn agor.

9.2.2. Os nad yw'r ddolen yn gweithio, ceisiwch gopïo a gludo'r ddolen archebu i borwr arall (peidiwch â defnyddio Internet Explorer).

9.2.3. Os nad yw'r ddolen yn gweithio yn y porwr gwe newydd, rhowch gynnig ar y ddolen eto ar gyfrifiadur/gliniadur lle rydych chi wedi gallu llwytho'ch ffeil ymateb cofrestriad etholiadol unigol (IER) o'r blaen, os nad ydych chi'n gwneud hynny eisoes.

9.2.4. Os nad oes gennych fynediad i'r Offeryn Amserlennu ar y cyfrifiadur/gliniadur a ddisgrifir yn adran 9.2.3 naill ai, cliciwch ar y ddolen hon neu ei gopïo a'i gludo i'ch porwr gwe: https://api.registertovote.service.gov.uk/psn_status. Yr ymateb delfrydol i'w dderbyn yma yw 'PSN llwyddiannus'. P'un a oedd eich cysylltiad PSN yn llwyddiannus ai peidio, cysylltwch â'ch tîm TG lleol, gan esbonio'r broblem mynediad rydych chi'n ei chael a chynnwys:

a) Canlyniadau'r prawf PSN hwn. Dylai eich statws PSN helpu i wneud diagnosis o'r broblem.
b) Cais iddynt wirio a yw'r ddolen yn cael ei rhwystro gan unrhyw waliau tân a bod yr holl borthladdoedd perthnasol ar agor. Er enghraifft, dim ond os yw'n ymddangos ar ddechrau'r URL y mae rhai waliau tân yn derbyn 'api.registertovote.service', ond nid yw dolen yr Offeryn Amserlennu yn cynnwys 'api.registertovote.service' ar y dechrau, ac felly efallai y bydd angen caniatáu hyn.
c) Atodiad A isod, lle mae Rhestr Wirio Cysylltedd ar gyfer yr Offeryn Amserlennu a fydd yn eu helpu i roi mynediad i chi.

Nodwch y bydd yr Offeryn Amserlennu ar agor ac ar gael trwy'r ddolen oni bai eich bod yn derbyn neges gan Swyddfa'r Cabinet yn nodi fel arall.

9.2.5. Os yw'ch tîm TG lleol yn cadarnhau y dylech gael mynediad i'r ddolen hon ac yn dal i fethu ei agor - neu os nad ydynt ar gael - anfonwch yr e-bost sy'n cynnwys eich dolen Offeryn Amserlennu i canvass-reform@cabinetoffice.gov.uk ac ychwanegwch:

- Eich dewis cyntaf dyddiad llwytho i fyny
- Eich ail ddewis dyddiad llwytho i fyny
- Enw'ch cyflenwr EMS
- Cyfanswm eich etholwyr cofrestredig

Yna byddwn yn ceisio archebu'ch dyddiad llwytho i fyny ar eich rhan cyn gynted ag y gallwn. Er ein bod wedi nodi mewn man arall na ddylech anfon yr e-bost y tu allan i'ch sefydliad, mae hyn yn eithriad i'r rheol honno.

9.2.6. Ar ôl archebu eich dyddiad, gwnewch yn siŵr bod manylion eich archeb yn gywir yn eich e-bost cadarnhau. Os sylwch fod unrhyw un o'r manylion yn anghywir, cysylltwch â Swyddfa'r Cabinet ar unwaith.

9.3. **Rwy'n wasanaeth a rennir/CFP. A fyddaf yn derbyn un ddolen Offeryn Amserlennu ar gyfer pob cyngor o dan fy nghylch gwaith?**

9.3.1. Bydd y mwyafrif o wasanaethau a rennir a CFPau yn derbyn un cyswllt Offeryn Amserlennu. Dim ond os oes gennych seilwaith digidol ar wahân yn eich tîm y byddech yn derbyn dolenni ar wahân. Os ydych wedi derbyn un ddolen ac yn credu y dylech fod wedi derbyn mwy, neu i'r gwrthwyneb, anfonwch e-bost atom i canvass-reform@cabinetoffice.gov.uk.

9.3.2. Os oes gennych seilwaith digidol ar wahân ar gyfer pob cyngor, gwnewch yn siŵr eich bod yn mewnbynnu'r rhif etholwyr cywir ar gyfer pob cyngor pan ddefnyddiwch bob un o'ch dolenni Offeryn Amserlennu.

9.4. **Rwy'n wasanaeth a rennir/CFP. Beth os na allaf archebu'r un dyddiad llwytho i fyny ar gyfer fy holl gynghorau?**

9.4.1. Cysylltwch â ni drwy canvass-reform@cabinetoffice.gov.uk os na allwch archebu'ch dyddiadau llwytho i fyny ar gyfer eich holl gynghorau ar yr un diwrnod a byddwn yn darparu cymorth.

9.5. **Mae fy nghyngor yn uno â/daduno oddi wrth awdurdod arall. Sut y bydd hyn yn effeithio ar lwytho i fyny a defnyddio'r Offer Amserlennu?**

9.5.1. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n hysbysu canvass-reform@cabinetoffice.gov.uk os yw hyn yn wir fel y gallwn sicrhau bod eich proses cydweddu data cenedlaethol wedi'i ffurfweddu'n iawn i gyd-fynd â'ch seilwaith digidol.

9.5.2. Fel rheol ni chysylltir ag awdurdodau sydd wedi uno'n llawn o'u swyddogaeth gwasanaethau etholiadol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn y broses hon ac yn lle hynny byddant yn cael eu trin fel un endid.

9.6. **Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn archebu dyddiad llwytho i fyny trwy'r Offeryn Amserlennu?**

9.6.1. Byddwch yn derbyn e-byst atgoffa yn rheolaidd nes eich bod wedi archebu'ch dyddiad llwytho i fyny.

9.7. **Beth ddylwn i ei wneud os yw seilwaith fy rhwydwaith wedi newid ers i mi lwytho i fyny/i lawr o'r CDMS ddiwethaf?**

9.7.1. Os yw'ch tîm TG wedi gwneud newidiadau i'ch seilwaith rhwydwaith a bod angen i chi wirio cysylltedd â'r CDMS yna cyfeiriwch at y Rhestr Wirio Cysylltedd isod yn Atodiad B.

9.7.2. Os byddwch chi'n colli'ch dyddiad llwytjo i fyny a drefnwyd oherwydd problemau cysylltedd, ni allwn warantu pryd fydd y dyddiad llwytho i fyny nesaf.

9.8. **Beth os na all fy nhîm TG lleol ddarparu unrhyw wybodaeth am newidiadau system a allai fod wedi digwydd ers i fi lwytho i fyny/i lawr ddiwethaf i CDMS?**

9.8.1. Os na allwch gael eglurder gan eich tîm TG lleol ynghylch unrhyw newidiadau i'r system, mae'n bosibl y bydd hyn yn effeithio ar lwytho i fyny yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae yna gamau y gallwch eu cymryd mewn ymgais i liniaru'r risg honno.

9.8.2. Yn yr amgylchiad hwn, dylech geisio ailadrodd mor agos agos â phosib sefyllfa a seilwaith rhwydwaith eich proses llwytho i fyny/i lawr lwyddiannus ddiwethaf i CDMS. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n ystyried llwytho data i fyny/i lawr o'r un cyfrifiadur yn y swyddfa, yn hytrach na gliniadur gartref, er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y trosglwyddiad data yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad hwn yn fwy tebygol o fod â'r un llwybrau i mewn i CDMS.

9.9. **A oes unrhyw beth arall y mae angen i mi ei wneud cyn fy nyddiad llwytho i fyny?**

9.9.1. Fel y soniwyd yn adran 6.2, bydd angen i chi hefyd sicrhau eich bod wedi gosod y diweddariadau EMS cywir i gynnal cydweddu data cenedlaethol. Bydd eich cyflenwr EMS yn cysylltu â chi i'ch hysbysu am unrhyw ddiweddariadau gofynnol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch diweddariadau EMS, cysylltwch â'ch cyflenwr EMS a/neu'r tîm TG lleol fel sy'n briodol.

9.9.2. Mae'n bwysig sicrhau bod y fersiwn EMS cywir wedi'i osod i gwblhau cydweddu data cenedlaethol ar eich dyddiad llwytho i fyny a drefnwyd. Os byddwch yn methu â llwytho i fyny ar eich dyddiad a drefnwyd oherwydd bod hen fersiwn o'ch EMS wedi'i osod, ni fyddem yn gallu gwarantu pryd fyddai'r dyddiad llwytho i fyny nesaf.

9.10. **Beth ddylwn i ei ddisgwyl yn fy nghanlyniadau?**

9.10.1. I gael arweiniad ar ba ganlyniadau y byddwch yn eu derbyn, cyfeiriwch at ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol y cyfeirir atynt yn adran 3 o'r ddogfen hon.

9.10.2. Nodwch fod cydweddu data cenedlaethol yn digwydd ar lefel yr etholwr, sy'n golygu bod pob etholwr yn cael ei gydweddu'n unigol yn erbyn data a gedwir yn DWP. Pan fydd canlyniadau'r profion data cenedlaethol yn cael eu llwytho i lawr, rydych chi'n derbyn y canlyniadau cydweddu unigol hynny. Yna bydd eich EMS yn cydgasglu'r canlyniadau - gan gynnwys unrhyw gydweddu data lleol y gallech fod wedi'i gynnal - i ddarparu eich canlyniadau cydweddu lefel eiddo i chi.

9.11. **Pryd y byddaf yn derbyn fy sgôr cywirdeb data?**

9.11.1. Dim ond ar ôl i chi gwblhau eich canfasiad a chyhoeddi eich cofrestr ddiwygiedig y mae eich sgôr cywirdeb data ar gyfer cydweddu data cenedlaethol (ac unrhyw gydweddu data lleol y gallech fod wedi'i gwblhau) ar gael.

9.11.2. Mae hyn oherwydd bod sgoriau cywirdeb data yn gymhariaeth rhwng y canlyniadau cydweddu a'r wybodaeth y gwnaethoch chi ei darganfod yn y canfasiad neu, mewn geiriau eraill, y wybodaeth ar eich cofrestr ddiwygiedig. O ganlyniad, mae angen ichi gyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig i gynhyrchu'r sgôr cywirdeb data cywir.

9.11.3. Nodwch fod sgôr cywirdeb data yn arwyddo gallu pob set ddata i nodi'n gywir pa lwybr a ddylai eiddo fod yn ei ddilyn dan y canfasiad diwygiedig. Nid yw'n gyfrifiad union o gywirdeb y set ddata honno ei hun.

9.11.4. Bydd eich EMS yn cynhyrchu eich sgôr(iau) cywirdeb data ar ôl i chi gyhoeddi eich cofrestr ddiwygiedig. Ymgynghorwch â chyfarwyddiadau eich cyflenwr EMS neu siaradwch â'ch cyflenwr EMS i gael mwy o wybodaeth ynghylch cyrchu'ch sgôr cywirdeb data.

## Atodiad A - Cyrchu'r Offeryn Amserlennu - Rhestr Wirio Cysylltedd

Bwriad yr atodiad hwn yw helpu timau TG lleol o fewn CFALl/Pau i ddarganfod a datrys materion wrth gyrchu'r Offeryn Amserlennu sy'n galluogi timau gwasanaethau etholiadol i archebu eu dyddiadau llwytho data cydweddu cenedlaethol i fyny ar gyfer y canfasiad blynyddol. Mae problemau cysylltu â'r Offeryn Amserlennu fel arfer yn cael eu hachosi gan osodiadau rhwydwaith ar lefel safle lleol. Nid oes unrhyw newidiadau i broses canfasio a gosodiadau wal dân Swyddfa'r Cabinet, ac felly mae'n annhebygol y bydd problemau o du'r rhaglen ei hun. Os yw CFALl/P yn cael anhawster wrth gyrchu'r Offeryn Amserlennu, rydym yn awgrymu eich bod yn dechrau ymchwiliadau trwy gyflawni'r tasgau canlynol i wneud diagnosis o'r broblem.

| | |
|---|---|
| 1 | Gwiriwch osodiadau'r wal dân TG leol:<br>a. Gwiriwch eich rheolau wal dân a chadarnhewch eu bod yn caniatáu traffig i mewn ac allan o scheduling-canvass.registertovote.service.gov.uk.<br>b. Os na, edrychwch ar eich logiau wal dân ar gyfer traffig allan ac i mewn i sicrhau nad oes gwrthodiadau. |
| 2 | Cadarnhewch fod y gosodiadau canlynol wedi'u ffurfweddu'n gywir, fel y gwelir isod:<br>a. Mae TCP Port 443 ar agor<br>b. Offeryn Amserlennu IP yw xx xxx 81.147.<br>c. Os ydych chi'n gweithio o bell, gwnewch yn siŵr bod y cyfeiriad rydych chi'n gweithio ohono yn gyfeiriad IP PSN sydd wedi'i restru ar y rhestr wen. Dylai cyfeiriad IP PSN ddechrau gyda 51 xx xxx xx. |
| 3 | Gwiriwch i weld ble mae'ch cysylltiad PSN yn cael ei gyfeirio.<br>a. Os caiff ei gyfeirio trwy eich cyflenwr meddalwedd EMS, ceisiwch gysylltu o'ch meddalwedd a sicrhau bod y wal dân wedi'i ffurfweddu i ganiatáu traffig i ac oddi wrth scheduling-canvass.registertovote.service.gov.uk.<br>b. Datrysiad posibl fyddai ychwanegu anfonwr amodol ar eich system enw parth (DNS) ar gyfer scheduling-canvass.registertovote.service.gov.uk gyda'r gweinydd IP a grybwyllir uchod.<br>c. Os ydych chi'n mynd trwy weinydd dirprwyol, gwnewch yn siŵr bod y traffig yn cael ei gyfeirio'n gywir trwy wirio'r gosodiadau. Os nad yw hynny'n gweithio, cysylltwch â'ch cyflenwr meddalwedd EMS.<br>d. Gallwch hefyd ychwanegu rheol wal dân yn y wal dân PSN sy'n caniatáu |

| | |
|---|---|
| | mynediad i'r cyfeiriad IP. |

## Atodiad B - Rhestr Wirio Cysylltedd Llwytho Data Cydweddu Cenedlaethol i Fyny/i Lawr

Bwriad yr atodiad hwn yw helpu timau TG lleol o fewn CFALl/Pau i ddarganfod a datrys materion wrth gysylltu â'r CDMS. Mae problemau cysylltu â'r gwasanaeth fel arfer yn cael eu hachosi gan osodiadau rhwydwaith ar lefel safle lleol. Nid oes unrhyw newidiadau i broses canfasio a gosodiadau wal dân Swyddfa'r Cabinet, ac felly mae'n annhebygol y bydd problemau o du'r rhaglen ei hun. Os yw CFALl/P yn cael anhawster cysylltu â'r gwasanaeth, rydym yn awgrymu eich bod yn dechrau ymchwiliadau trwy gyflawni'r tasgau canlynol i wneud diagnosis o'r broblem.

| | |
|---|---|
| 1 | Gwiriwch eich bod wedi'ch cysylltu â'r gwesteiwr PSN cywir:<br><br>Enw gwesteiwr llawn: *api.registertovote.service.gov.uk*<br><br>Cyfeiriad IP PSN: *xx.xxx.80.84*<br><br>Port: *443*<br><br>Math o weinydd: *Gwe*<br><br>Newid Math Dewis MX: *Ychwanegu parth* |
| 2 | Rhedwch brofion cysylltedd:<br><br>a. Gwiriwch y gallwch ddatrys cyfeiriad IP xx.xxx.80.84 i'r enw gwesteiwr 'api.registertovote.service.gov.uk' gan ddefnyddio naill ai ping neu nslookup.<br><br>b. Gwiriwch eich cysylltedd PSN:<br><br>Gan ddefnyddio porwr gwe sydd ar yr un peiriant â'r system EMS, llwythwch yr URL canlynol: https://api.registertovote.service.gov.uk/psn_status. Os yw'r cysylltedd yn gweithio, dylai'r dudalen arddangos y neges: *'Connectivity test successful'.*<br><br>c. Rhedwch unrhyw brofion cysylltedd sydd wedi'u cynnwys yn eich EMS. |

| | |
|---|---|
| 3 | Gwiriwch leoliadau TG lleol (camgyfluniad ar y safle lleol sy'n achosi'r mwyafrif o faterion cysylltedd):<br><br>a. Gwiriwch gyfluniad yr anfonwr amodol:<br><br>Mae angen sefydlu'r anfonwr amodol ar y gweinydd DNS i'r enw parth canlynol: registertovote.service.gov.uk.<br><br>Dylai'r datrysiadau DNS ar gyfer cysylltiad dros PSN fod:<br><br>● Xx.xx.255.42<br><br>● Xx.xx.255.58<br><br>b. Gwiriwch wal dân a llwybro:<br><br>Dylai'r llwybr ar y wal dân sy'n pwyntio at y PSN fod yn xx.xxx.0.0/17. Os yw hyn yn anghywir, ni ellir datrys cyfeiriad IP y gwesteiwr.<br><br>Dylech hefyd wirio bod y wal dân yn Cyfieithu Cyfeiriad Rhwydwaith (NAT) yr IP ffynhonnell i gyfeiriad cofrestredig trwy'r wal dân. Gwiriwch logiau wal dân am draffig allan ac i mewn i sicrhau nad oes gwrthodiadau.<br><br>c. Gwiriwch eich gosodiadau dirprwy:<br><br>Gwiriwch â'ch cyflenwr EMS bod y dirprwy wedi'i osod yn gywir o fewn y cais EMS. |
| 4 | Os ydych yn dal yn methu â chysylltu:<br><br>a. Cysylltwch â'ch cyflenwr EMS i ddatrys problemau meddalwedd EMS i sicrhau nad oes unrhyw broblem gyda'r meddalwedd EMS ei hun.<br><br>b. Rhowch eich cyfeiriad IP PSN i Ganolfan Gymorth Cofrestriad Etholiadol Unigol (IER) fel y gallwn wirio beth sy'n digwydd i'ch traffig. |